**Ken Skates AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau Cynulliad

12 Ebrill 2017

Annwyl Aelod,

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 29 Mawrth, dywedais y byddem yn rhoi manylion ichi am y meini prawf sy'n rhaid eu bodloni er mwyn denu buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru drwy Gronfa Sgrîn Cymru

Mae Cronfa Sgrîn Cymru yn gymorth gwladol sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i ariannu prosiectau teledu a ffilm, gan ganolbwyntio ar sicrhau eu bod yn cael cymaint o effaith â phosib ar Gymru, ac yn unol â chanllawiau cyllido Llywodraeth Cymru, yn ceisio sicrhau gwerth am arian.  Y prif sbardun economaidd o ran derbyn cymorth yw lefel y gwariant yng Nghymru gan brosiectau, drwy wariant ar griw, cyfleusterau a lleoliadau.

Gall cymorth ar gyfer ysgrifennu sgriptiau, datblygu, cynhyrchu, dosbarthu a hyrwyddo gwaith clyweledol eu hystyried fesul achos ar gyfer prosiectau sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster penodol fel a nodir isod:

a) Mae'n rhaid i brosiect fod yn gynhyrchiad Prydeinig o ran ei ddiwylliant, fel a ddiffinnir ym mhrawf diwylliannol Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon y DU ('Prawf Diwylliannol y DU').   Mae'r prawf hwn yn seiliedig ar amrywiol feini prawf i gynnwys elfennau diwylliannol, cyfraniad diwylliannol, defnyddio canolfannau diwylliannol yn ogystal â sicrhau bod nifer sylweddol o wladolion/preswylwyr yr Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cael eu cyflogi gan y cynhyrchiad.
b) Hefyd, mae'n rhaid i'r cynhyrchiad wneud cyfraniad sylweddol i un neu fwy o'r meini prawf canlynol penodol i Gymru:

- Dangos ystod mor eang â phosib o ddelweddau o Gymru.
- Dangos gwaith doniau creadigol gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu, i ysgrifennwyr, cyfarwyddwyr ac actorion sy'n dod o Gymru neu sy'n gysylltiedig â Chymru.
- Adrodd storïau cynhenid yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd.
- Dangos delweddau o Gymru i gynulleidfa ryngwladol eang.
- Datblygu'r sylfaen sgiliau sydd ei hangen i gynnal cynyrchiadau ffilm a theledu yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

c) Bydd prosiectau'n gymwys am gyllid ar yr amod y gallant ddangos posibilrwydd o gyrraedd cynulleidfa yng Nghymru yn ogystal ag o leoliadau eraill. Bydd y dystiolaeth o hyn yn benodol i'r prosiect, ond mae'n debygol o gynnwys, er enghraifft, ddefnyddio asiant gwerthiant profiadol ar gyfer cais sy'n gysylltiedig â ffilm neu ddarlledwr/cyhoeddwr yng nghyd-destun prosiectau teledu/cyfryngau newydd.

d) Mae'n rhaid i'r gyllideb fod yn addas ar gyfer maint y prosiect; bydd yn rhaid iddo ddangos tystiolaeth glir o arian cyfatebol a chyllid cyffredinol gan gynnwys Cronfa Sgrîn Cymru yn unol â'r cyfarwyddyd ar gyfer y cymorth.

e) Mae'n rhaid i bob cwmni sy'n ymgeisio fod wedi'u cofrestru'n ffurfiol. Nid oes yn rhaid i gwmnïau fod yn gofrestredig yng Nghymru. Gall cwmnïau gofrestru'n ffurfiol o fewn unrhyw wlad yr UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd neu unrhyw le arall.

f) Cynhyrchu a rheoli gyda phrofiad sy'n cyd-fynd â lefel y gyllideb.

g) Ni fydd Cronfa Sgrîn Cymru yn cystadlu gyda chyllidwyr eraill sydd wedi gwneud cynnig i ymgeisydd posibl. Yn ymarferol, golyga hyn na fydd Cronfa Sgrîn Cymru yn cystadlu ag unrhyw gyllidwr arall.

h) Nid oes hawl gwneud cais wedi cwblhau'r cynhyrchiad.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn gwneud pethau'n eglur i Aelodau'r Cynulliad.

Yn gywir,

**Ken Skates AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure